

Chwarae Cymru
Play Wales



Cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru

Ar gyfer gweithwyr chwarae ac eraill sy'n gweithio â phlant

www.chwarae.cymru

Cyflwyniad i gymwysterau

Canllaw cryno i helpu gweithwyr chwarae, cyflogwyr a rheolwyr ddeall yn well y cymwysterau gwaith chwarae sydd ar gael yng Nghymru.

Mae'r sector gwaith chwarae'n cwmpasu nifer o wahanol broffesiynau, y gallai llawer ohonynt elwa o hyfforddiant neu gymwysterau gwaith chwarae. Mae gwahanol opsiynau ar gael os ydych angen cymhwyster gwaith chwarae fel rhan o'ch gwaith.

Waeth beth yw eich diddordeb mewn gwaith chwarae, gall Chwarae Cymru eich helpu i ddod o hyd i'r dysg sy'n gywir i chi.

Mae'r opsiynau hyn yn amrywio yn dibynnu ar:

- Beth yw rôl eich swydd
- Os ydi'r lleoliad yr ydych yn gweithio ynddo'n cael ei reoleiddio a'i archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Pa fath o leoliad yr ydych yn gweithio ynddo
- Pa gymwysterau eraill yr ydych yn meddu arnynt – yn enwedig os yw'r rheini mewn gofal plant, gwaith ieuenctid neu addysg.

Beth ydi gwaith chwarae?

Mae gwaith chwarae'n alwedigaeth gydnabyddedig. Mae gwaith chwarae'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn sicrhau mai chwarae yw'r prif ffocws.

Mae rôl y gweithiwr chwarae'n un amrywiol ac mae'n golygu mwy o lawer na diddanu plant. Mae gweithwyr chwarae'n cefnogi a hwyluso chwarae plant ac mae hyn yn galw am ystod o sgiliau. Byddwch yn dysgu am y rhain ar unrhyw un o'r cymwysterau gwaith chwarae a ddisgrifir yn y canllaw hwn.

Mae rhinweddau pwysig i weithwyr chwarae yn cynnwys:

- Cred mai'r plant ydi'r arbenigwyr ar eu chwarae eu hunain
- Cred bod gan blant yr hawl i chwarae
- Ymrwymiad i gynnwys pob plentyn
- Parodrwydd i adael i'r plant gymryd yr awenau yn eu chwarae eu hunain
- Parodrwydd i gamu'n ôl ble fo angen er mwyn i blant allu chwarae yn eu ffordd eu hunain
- Ymwybyddiaeth bod cymryd risg yn rhan bwysig o chwarae ac mai rôl oedolion ydi taro cydbwysedd rhwng cymryd risg a buddiannau corfforol ac emosiynol chwarae
- Gwerthfawrogi gwerth arsylwi a sut y mae hyn yn helpu oedolion i ddeall plant a'u chwarae
- Y ddawn i adlewyrchu ar brofiadau da a drwg er mwyn gwella ymarfer gwaith chwarae
- Agwedd greadigol tuag at weithio gydag eraill
- Dealltwriaeth dda o sut i ddarparu adnoddau ar gyfer chwarae.

Mae'n bwysig gwybod y gall cymwysterau gwaith chwarae fod yn werthfawr hefyd ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant.

Rolau swyddi

Gall swyddi gwaith chwarae fod yn amser llawn neu'n rhan-amser ac weithiau byddant ond ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn golygu y gall gwaith chwarae fod yn yrfa llawn amser neu'n rhywbeth sy'n ffitio o gwmpas astudio neu waith arall.

Gweithwyr chwarae

Gall gweithwyr chwarae weithio mewn nifer o wahanol fannau, yn cynnwys:

- Meysydd chwarae antur wedi'u staffio
- Clybiau ar ôl ysgol (gofal plant y tu allan i oriau ysgol)
- Cynlluniau chwarae dros y gwyliau
- Prosiectau chwarae rhiniog y drws – fel chwarae stryd
- Prosiectau rhodwyr chwarae – er enghraifft mewn parciau cyhoeddus
- Ysgolion.



Deall sut i gefnogi chwarae plant yw'r dasg bwysicaf i weithiwr chwarae. Mae gwaith chwarae'n wahanol i lawer o broffesiynau eraill sy'n cynnwys gweithio gyda phlant ble gallai'r ffocws fod ar ddysgu, gweithgarwch corfforol neu'r celfyddydau, er enghraifft.

Llwybr cynnydd gwaith chwarae

Mae Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (P³) yn gyfres o dri chymhwyster, y mae pob un yn graddol ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gwaith chwarae pobl.

Gan gychwyn fel gweithiwr chwarae heb gymhwyso, bydd cwblhau'r tri chymhwyster yn caniatáu ichi weithio fel uwchweithiwr chwarae neu reolwr gwaith chwarae. Mae pob cam o'r llwybr cynnydd yn ehangu ar y wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd yn y cymhwyster blaenorol.

Mae'r cymwysterau hyn wedi eu dylunio i ddarparu llwybr effeithiol i gymhwyso fel gweithiwr chwarae:

- 1** Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) Agored Cymru yw'r gofyniad mynediad ar gyfer llwybr P³ ac mae rhaid ei gwblhau'n llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r cymwysterau eraill yn y gyfres. Mae'n cynnwys

gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae, cynhwysiant, theori gwaith chwarae a chreu manau i chwarae.

- 2** Mae Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith Agored Cymru wedi ei dylunio i gwrdd ag anghenion gweithwyr chwarae wyneb yn wyneb sy'n gweithio trwy gydol y flwyddyn mewn ystod eang o leoliadau. Mae'n cynnwys gwybodaeth am arfer myfyriol, diogelu, gweithio gydag eraill a sgiliau gwaith chwarae ymarferol.

- 3** Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith Agored Cymru ydi'r cam nesaf ar y llwybr cynnydd wedi'r Dystysgrif Lefel 2 ac mae wedi ei anelu at reolwyr a goruchwylwyr gwaith chwarae. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ddatblygu cymunedol, rheoli risg, deddfwriaethau a gweithio gyda theuluoedd.

Dysgwch fwy ar:

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/cymwysterau-a-hyfforddiant

Llwybr cynnydd cymwysterau gwaith chwarae

Er mwyn cyflawni anghenion chwarae pob plentyn yng Nghymru a phawb sy'n gweithio ble mae plant yn chwarae, mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu cymwysterau Agored Cymru – Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (P³).

Agored Cymru Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP)

Ar gyfer gweithwyr cynlluniau chwarae dros y gwyliau a phobl sy'n newydd i waith chwarae. Dyma'r gofyniad mynediad ar gyfer symud ymlaen i'r cymwysterau eraill yn y gyfres hon.

Agored Cymru Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith

Ar gyfer gweithwyr chwarae wyneb-yn-wyneb sy'n gweithio trwy gydol y flwyddyn mewn ystod eang o leoliadau.

Agored Cymru Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith

Cam i fyny o'r Dystysgrif Lefel 2. Caiff ei anelu at uwch-weithwyr chwarae, goruchwylwyr a rheolwyr gwaith chwarae.



Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith

Mae'r cymhwyster P³ yn arbennig oherwydd:

- Mae'n hyfforddiant sydd wir yn canolbwyntio ar chwarae ble mae anghenion plant yn chwarae'n dod gyntaf.
- Mae gwaith chwarae cynhwysol a chwrdd ag anghenion chwarae pob plentyn wedi eu gwreiddio trwy'r cyrsiau i gyd.
- Mae'r profiad dysgu'n un rhyngweithiol a dynamig sy'n sicrhau y bydd dysgwyr yn ei gael yn ddiddorol ac ysgogol.
- Mae dysgwyr a chyflogwyr yn dweud wrthym ei fod yn trawsnewid eu hymarfer.
- Mae wedi ei strwythuro o amgylch yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.
- Mae'n cael ei drosglwyddo gan rai o hyfforddwyr gwaith chwarae mwyaf dynamig ac ysbrydoledig y DU.
- Mae deunyddiau'r cwrs wedi eu hysgrifennu, eu dylunio a'u golygu gan rai o arbenigwyr gwaith chwarae mwyaf blaenllaw y DU.
- Gellir ei drosglwyddo yn Gymraeg neu Saesneg (yn cynnwys y llawlyfrau).

Cymwysterau gwaith chwarae eraill

Yn ogystal â llwybr cynnydd P³, mae cymwysterau gwaith chwarae eraill sy'n addas ar gyfer y bobl hynny sy'n meddu ar gymwysterau eraill eisoes mewn gweithio gyda phlant, fel gofal plant neu addysg. Mae'r cymwysterau gwaith chwarae eraill hyn yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i chwarae a gwaith chwarae hefyd.

Gwaith Chwarae Lefel 1 Agored Cymru

– cwrs hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer pobl sydd am ennill gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae plant a sut y bydd gweithwyr chwarae'n gweithio â phlant. Nid yw hwn yn cymhwyso dysgwyr i weithio mewn lleoliad gwaith chwarae cofrestredig.

Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) Agored Cymru

– rhan o lwybr cynnydd P³ ond sydd hefyd yn ddefnyddiol fel cyflwyniad i waith chwarae. Os ydych yn gweithio mewn ysgol, gwaith ieuencid, chwaraeon, y blynyddoedd cynnar neu leoliad arall gyda phlant, mae wedi ei greu ar eich cyfer chi.

Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS) Agored Cymru

– ar gyfer pobl sydd eisoes â chymhwyster lefel 3 arall mewn gweithio gyda phlant. Mae wedi ei ddatblygu'n bennaf i helpu pobl sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau i ychwanegu gwybodaeth a sgiliau gwaith chwarae i gymhwyster lefel 3 mewn gweithio gyda phlant sydd ganddynt eisoes.

Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae

Dynamig (ADDaPT) Agored Cymru – cwrs hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer tiwtoriaid gwaith chwarae. Dyma hefyd y cymhwyster isaf posibl y mae Chwarae Cymru'n gofyn i diwtoriaid feddu arno er mwyn trosglwyddo llwybr cynnydd P³.

Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith

Chwarae – ar gyfer pobl sy'n meddu ar gymhwyster lefel 3 arall mewn gweithio gyda phlant, yn enwedig rai sydd â chymwysterau addysg, gwaith ieuencid neu ofal. Gellir ychwanegu'r cymhwyster hwn i'r cymwysterau sydd gennych eisoes er mwyn cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer gwaith chwarae mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'n cael ei gynnig gan nifer o gyrff dyfarnu yn cynnwys Agored Cymru, NCFE Cache a City & Guilds.

Diplomâu gwaith chwarae Lefel 2 a 3

– mae'r cymwysterau hyn ar gael gan gyrff dyfarnu eraill yn cynnwys NCFE Cache a City & Guilds. Maent yn gymwysterau cydnabyddedig yng Nghymru a dyma'r unig rai sydd ar gael fel prentisiaethau gwaith chwarae. Gall prentisiaethau fod yn ffordd dda o dderbyn ariannu ar gyfer dysgu yn y gwaith.

Cymwysterau gofynnol

Er mwyn gweithio mewn lleoliad chwarae neu gofal plant gaiff ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru, bydd angen ichi feddu ar y cymwysterau priodol ar gyfer rôl eich swydd.

- Mae angen cymwysterau gwaith chwarae ar unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant oedran ysgol mewn lleoliad ar ôl ysgol neu fynediad agored a reoleiddir.
- Mewn rhai achosion, efallai y byddwch angen cymhwyster gwaith chwarae yn ogystal â chymhwyster gofal plant.
- Fel arfer, bydd pobl sy'n gweithio gyda phlant ond sydd ddim yn rheolwyr angen meddu ar gymhwyster lefel 2.
- Fel arfer, bydd pobl sy'n gweithio fel rheolwyr angen meddu ar gymhwyster lefel 3.

Bydd eich rôl unigol chi a pha gymwysterau eraill sydd gennych eisoes yn effeithio ar ba gymwysterau sydd fwyaf addas ar eich cyfer chi. I'ch helpu i benderfynu ar y cymhwyster gorau ar eich cyfer chi, edrychwch ar y siart llif cymwysterau gwaith chwarae sydd ar gael ar wefan Chwarae Cymru.

Ceir mwy o wybodaeth am y *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru* ar y wefan hefyd. Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) sy'n penderfynu pa gymwysterau sydd eu hangen ym mha sefyllfa.

Dysgwch fwy am gymwysterau gofynnol ar:
www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/cymwysterau-sydd-eu-hangen-ar-gyfer-gwaith-chwarae



Cefnogaeth a gwybodaeth bellach

Os hoffech ddysgu mwy am gymwysterau gwaith chwarae a sut i gofrestru, cysylltwch gyda:

Chwarae Cymru – www.chwarae.cymru

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs – www.clybiauplantcymru.org

Sefydliadau pwysig

Chwarae Cymru

Y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant. Mae Chwarae Cymru wedi arwain y gwaith o ysgrifennu'r cymwysterau gwaith chwarae ar gyfer y sector yng Nghymru a gall gyngori ar y cymhwyster gorau ar eich cyfer chi.

www.chwarae.cymru

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Y sefydliad cenedlaethol sy'n helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Mae'n brif ddarparwr cymwysterau gwaith chwarae ac yn un o bartneriaid pwysig Chwarae Cymru.

www.clybiauplantcymru.org

PETC Wales

Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn cymeradwyo pa gymwysterau gwaith chwarae sydd eu hangen ar bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae a reoleiddir.

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

Cymwysterau Cymru

Y sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau a enillir yn yr ysgol (TGAU a Safon Uwch) a chymwysterau galwedigaethol fel gwaith chwarae a gofal plant.

www.cymwysteraucymru.org

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio ac archwilio lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae.

www.arolygiaethgofal.cymru

Cyrrff dyfarnu

Dyma'r sefydliadau sy'n dyfarnu'r cymwysterau. Yn y bôn, y nhw sy'n gyfrifol am ansawdd, cynnwys a phatrwm cymwysterau – a'ch tystysgrif! Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gydag Agored Cymru i ddatblygu'r llwybr cynnydd gwaith chwarae yn y canllaw hwn. Mae Agored Cymru yn Gorff Dyfarnu Cymreig. Cewch hyd hefyd i gymwysterau gwaith chwarae gan Gyrrff Dyfarnu eraill y DU, yn cynnwys NCFE Cache a City & Guilds.



www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.